PENDERFYNIADAU A WYNEBWCH—SUT GWNEWCH CHI NHW?

Nodyn i'r siaradwr:
Helpwch y gynulleidfa i sylweddoli fod yn rhaid i bob un wneud ei benderfyniadau ei hun. I benderfynu'n ddoeth rhaid inni bob amser ystyried Gair Duw, ein cydwybod, a'n hymgysegriad i Dduw. Unwaith y gwna person benderfyniad cyfrifol, dylai lynu wrtho a pheidio ag ail feddwl o hyd. Byddwch yn ofalus rhag gwneud rheolau i'r gynulleidfa ar faterion personol

OSGOWCH BOD YN AMHENDANT (9 mun.)

'Rydym oll yn wynebu sefyllfaoedd niferus sy'n gofyn am benderfyniadau

Gall fod a wnelo'r rhain â phrynu pethau, cyllidebau, gwaith, iechyd, priodas, perthynas â phobl, defnyddio amser, adloniant, ac yn y blaen

'Fedrwn ni ddim osgoi gwneud penderfyniadau

Mae tuedd yn llawer o bobl i fod yn ansicr

Yn aml maen' nhw eisiau i rywun arall benderfynu drostynt

Mae'r Beibl yn gwgu ar ansicrwydd (Iago 1:7, 8)

Ystyr y gair Groeg am amhendant yw "bod â dau enaid"

Rhaid inni ymroi â'n holl enaid i Jehofah, gan fyw yn ôl ein penderfyniad i'w wasanaethu'n llawn (*w*79 5/15 22)

Mae amhendantrwydd yn ein hamddifadu ni o amser a chyfleon (Eff 5:15, 16; *g*90 2/8 18)

Oherwydd na wnaent benderfyniad, amddifadodd cenedl Israel ei hunain o'r amser y gallent fod yn addoli Jehofah (1Bren 18:21)

Rhaid inni ddysgu sut i wneud penderfyniadau doeth oherwydd na fedrwn fynd yn ôl mewn amser i ddadwneud ein camgymeriadau (*w*82 10/1 3)

Mae angen gwybod pa benderfyniadau 'rydym ni'n gyfrifol am eu gwneud (Gal 6:5; *w*73 542)

DEFNYDDIWCH DDOETHINEB I WNEUD Y PENDERFYNIADAU 'RYDYM NI'N GYFRIFOL AMDANYNT (14 mun.)

Yn y gweithle, mae penderfyniadau mae'n rhaid i unigolyn eu gwneud

Dylid cyfeirio materion eraill at y cyflogwr (Eff 6:5, 6)

Yn y cartref, fe wna'r wraig lawer o benderfyniadau bob dydd (Diar 31:11, 16, 18; *it*-2 342, 1197)

Rhaid i'w gŵr benderfynu rhai pethau (*fl* 55-6)

Gwna plentyn hefyd lawer o benderfyniadau (*fl* 151-5)

Mae'r rhain yn ddibynnol ar gymeradwyaeth ei rieni (Lc 2:40-42; Col 3:20; *g*88 1/8 19-21; *yp* 11-17; *yy* 73-9)

Mae a wnelo rhai penderfyniadau â'r gydwybod Gristionogol

Dewis gwaith (1Cor 10:31; *w*82 7/15 26; *w*72 591-600)

Adloniant, defnyddio amser, yn cael eu penderfynu gan y gydwybod (*w*79 6/1 3-20; *yp* 289-303)

Mewn llawer achos er mai cyfrifoldeb unigolyn yw dod i benderfyniad arbennig, peth ystyriol fyddai trafod y mater yn gyntaf ag eraill y gall eu bod nhw â chysylltiad â'r peth (*w*89 5/15 12-13)

GWNEWCH BENDERFYNIADAU DOETH DRWY EDRYCH AT DDUW AM GYFARWYDDYD (11 mun.)

Nid ein cyfrifoldeb ni yw penderfynu drwg a da

Rhaid edrych i gyfeiriad Jehofah, neu fe wnawn benderfyniadau trychinebus (*w*87 10/1 11)

Cymhwyswch egwyddorion a geir yng Ngair Duw (Salm 119:105; Diar 3:5, 6)

Mae amrediad cyngor y Beibl yn ddihafal; mae'n cynnwys doethineb ar gyfer pob penderfyniad mae'n rhaid inni ei wneud (*w*90 4/1 13)

Mae angen amgyffrediad da o egwyddorion y Beibl os ydym i wneud penderfyniadau doeth (*w*88 10/1 26)

Dysgwch lle mae canfod yr egwyddorion gwerthfawr hyn at gyfer penderfyniadau beunyddiol (2Tim 2:15)

Drwy ymarfer a hyfforddiant, dysgwch ddefnyddio cyhoeddiadau sydd ar gyfer astudio'r Beibl, a chymryd yr amser angenrheidiol i wneud hynny

Mae rhesymu ar egwyddorion y Beibl bob tro yr wynebir dyn â phenderfyniad yn hanfodol wrth ymgyrraedd at aeddfedrwydd Cristnogol (Heb 5:14; *w*85 5/1 12)

Buddiol yw ymgynghori â Christnogion aeddfed ar faterion difrifol ac osgoi gwneud penderfyniadau byrfyfyr (Diar 12:15; 18:1)

Ond sylweddolwch mai chi'n bersonol fydd yn rhaid gwneud y penderfyniad

Trowch at Dduw mewn gweddi, gan geisio'i arweiniad

Ystyriwch sut y bydd eich penderfyniad yn effeithio ar eich perthynas â Jehofah, sut y bydd yn effeithio ar eraill, sut y bydd yn effeithio ar eich cydwybod eich hun ac ar eich dyfodol (*w*82 7/15 22-7)

Mae Jehofah yn disgwyl inni ddefnyddio'n deallusrwydd, ein gwybodaeth, a'n barn ac i weithredu yn ôl yr hyn y cyfeiria'n ffydd ni ato

Gall penderfyniadau amrywio o'r naill berson i'r llall (*w*72 589-91)

Dibynna ar gynnydd aeddfedrwydd ysbrydol ac ar ystyried manteision ac anfanteision y mater yn ofalus

BYW YN ÔL EIN PENDERFYNIADAU (5 mun.)

Oherwydd problemau sy'n codi bydd yn dal i fod yn anodd byw yn ôl rhai penderfyniadau sydd yn addas ac yn unol ag ewyllys Duw

Mae angen bod yn gadarn i weithredu (*w*69 174-9)

Hyd yn oed pan wneir penderfyniadau cywir, gall dyn barhau am gyfnod i brofi effeithiau penderfyniadau gwallus a wnaed yn y gorffennol

Daw canlyniadau da cynyddol i'r un sy'n gadarn lynu wrth gyngor Gair Duw (Gal 6:9)

Y PENDERFYNIAD PWYSICAF: MABWYSIADU ADDOLI JEHOFAH (6 mun.)

Pwysig cydnabod ymrwymiad i'r gwir Dduw a chysegru bywyd iddo (*w*93 4/1 4-7; *bw* 5-14; *su* 121-8)

Os nad ydych eto wedi gwneud y penderfyniad hwnnw, mae taer angen ei wynebu (Act 22:14-16; *w*89 1/15 14-15)

Oni wnawn, gall Jehofah ein hystyried yn bechadur "dau feddwl" (Iago 4:8, 17)

Rhaid bod yn bendant mewn ffordd gywir nid dim ond oherwydd teimlo dyletswydd ond gyda'r awydd i 'nesáu at Dduw' (*w*79 5/15 22)

Os gwnaethoch y penderfyniad, mae'n hanfodol gweithredu arno

Rhaid byw mewn cytgord â'r penderfyniad (Rhuf 8:38, 39; *bw* 15-28)

(Deunydd ffynhonnell arall: *g*90 2/8 18-20; *w*67 762-6; *w*63 643-4, 675-6)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)

© 1993 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania